

Gwybodaeth gydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr

Canllaw i ddeiliaid grantiau



Gwybodaeth gydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr - canllaw i ddeiliaid grantiau

Stock code BIG-EQU-GHGuide
Print Burlington
Photography Shaun Fitzpatrick, Dominic Holden, Mandy Jones, Keith Morris,
 Paula Solloway, Nick Treharne

Copïau pellach ar gael gan:

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0300 123 0735
Ffôn testun 0845 6 02 16 59
Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein cenhadaeth

Rydym wedi'n hymrwymyo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd

Rydym wedi nodi tri gwerth sy'n sail i'n gwaith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu, gwneud y defnydd gorau o arian Loteri a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymyo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr ac ariannwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Awst 2011

Mae ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o gyflawni ein cenhadaeth - dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoli grantiau i sicrhau bod y prosiectau a ariannwn yn cyrraedd y bobl fwyaf anghenus. Cydnabyddwn y bydd rhai deiliaid grantiau yn ei chael hi'n anodd ddod i ben â'r gofynion newydd hyn (yn enwedig mudiadau bach a mwy newydd). Felly rydym wedi datblygu Canllaw Gwybodaeth Gydraddoldeb i ddeiliaid grantiau sy'n darparu arweiniad ychwanegol, dolenni i ffynonellau data defnyddiol, arfer da ac enghreifftiau.

Gweler www.cronfaloterifawr.org.uk/index/grant-uk.htm

Mae'r canllaw hwn yn grynodedb o'r deunyddiau ar y wefan. Mae'n cynnwys:

- ein gofynion
- cywain eich tystiolaeth
- offer cywain tystiolaeth
- adolygu eich tystiolaeth
- cyrraedd pawb
- ble i gael mwy o wybodaeth.

Pam ydym ni'n gofyn am wybodaeth gydraddoldeb?

Rydym yn gofyn am wybodaeth gydraddoldeb oherwydd y rhesymau a ganlyn:

- rydym am wybod pwy sy'n elwa o'r prosiectau a ariannwn er mwyn i ni ddarganfod p'un a oes angen i ni roi mwy o gefnogaeth i rai ymgeiswyr, targedu ein hariannu neu newid sut rydym yn rhedeg ein rhaglenni
- rydym yn awyddus i ddysgu sut gall ein hariannu gyrraedd cynifer o bobl â phosib
- trwy rannu'r hyn a ddysgw'n, gall y rhai sy'n rhedeg prosiectau gael gwybod sut i gyrraedd yr ystod ehangaf o bobl a allai elwa.

Byddwch chi'n gweld ei bod yn ddefnyddiol hefyd!

Trwy gywain gwybodaeth gydraddoldeb, bydd modd i chi:

- gael gwybod am y rhai sy'n elwa o'ch prosiect a'r rhai nad ydynt yn elwa
- sicrhau eich bod yn cyrraedd pawb a allai elwa, drwy wneud newidiadau i'ch prosiect os bydd angen
- dangos arfer da a rhannu eich dysgu gyda ni, arianwyr eraill a'ch cymuned.

Sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon?

- ▶ Byddwn yn adolygu'r hyn a dywedwch wrthym ac mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi gyda chwestiynau.
- ▶ Os nad yw eich prosiect yn cyrraedd pawb a allai elwa ohono neu os oes gwendidau o ran sut rydych yn cywain tystiolaeth mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi ystyried gwneud rhai newidiadau i'ch prosiect.
- ▶ Ar ôl i chi orffen eich prosiect byddwn yn graddio pa mor effeithiol yr oedd wrth gyrraedd pawb a allai elwa ohono.

Ein gofynion

Byddwn yn gofyn am beth gwybodaeth gydraddoldeb ar ddechrau eich prosiect, ac yna bob blwyddyn ac ar ôl i chi ei orffen.

Ar y dechrau

Bydd angen i chi anfon ffurflen Dechrau eich grant i ni cyn i ni fedru dechrau talu'r grant. Yn yr adran gwybodaeth gydraddoldeb, byddwn yn gofyn i chi:

- ddweud wrthym am unrhyw newidiadau ers i chi anfon eich cais atom (er enghraifft, os ydych wedi ystyried ffyrdd newydd o gynnwys mwy o bobl, rydych wedi nodi buddiolwyr newydd y mae angen ymagwedd newydd arnynt, neu rydych wedi gweld nad oes angen eich cefnogaeth bellach ar rai pobl)
- amcangyfrif canran y bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect o dan ein categorïau cydraddoldeb
- dweud wrthym ar ba dystiolaeth rydych wedi seilio eich amcangyfrifon
- dweud wrthym sut byddwch yn cywain tystiolaeth drwy gydol eich prosiect er mwyn dangos canran y bobl sydd wedi elwa o dan ein categorïau cydraddoldeb.

Os bydd angen mwy o amser arnoch i lenwi'r rhan hon o'r ffurflen Dechrau eich grant, gallwch ddychwelyd gweddill y ffurflen pan ydych yn barod i ddechrau eich prosiect, a'r adran gydraddoldeb wedyn. Ond mae'n rhaid i ni dderbyn yr adran gydraddoldeb o fewn chwe mis ar ôl y dyddiad eich bod yn llofnodi eich cytundeb grant, neu o fewn deuddeg mis os ydym yn ariannu prosiect adeiladu.

Bob blwyddyn

Bydd angen i chi anfon ffurflen Diwedd blwyddyn atom. Yn yr adran gwybodaeth gydraddoldeb, byddwn yn gofyn i chi:

- ddweud wrthym beth y gwnaethoch chi i sicrhau bod pawb a allai elwa o'ch portffolio'n gwybod amdano ac yn medru ei ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo
- darparu'r ganran o bobl sydd wedi elwa o'ch prosiect o dan y categorïau cydraddoldeb a roddir yn y ffurflen a chefnogi hyn gyda thystiolaeth
- dweud wrthym pa mor effeithiol yr oeddech yn eich tyb chi wrth sicrhau bod pawb a allai elwa o'ch prosiect yn gwybod amdano ac yn medru ei ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo ac, os oes angen, beth y byddwch yn ei wneud yn wahanol dros y flwyddyn nesaf.

Ar ôl i chi orffen

Bydd angen i chi anfon ffurflen Diwedd grant atom. Mae'n cynnwys adran gwybodaeth gydraddoldeb sy'n debyg i'r ffurflen Diwedd blwyddyn, ond yn lle gofyn i chi beth y byddwch yn ei wneud yn wahanol y flwyddyn nesaf, byddwn yn gofyn i chi beth rydych wedi'i ddysgu drwy gydol eich prosiect.

“Byddwn yn gofyn am beth gwybodaeth gydraddoldeb ar ddechrau eich prosiect, yna bob blwyddyn ac ar ôl i chi ei orffen”

Cywain eich tystiolaeth

Sut i gywain tystiolaeth ar y dechrau

Yn eich ffurflen Dechrau eich grant rydym yn gofyn i chi amcangyfrif y ganran o bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect o dan nifer o gategoriâu cydraddoldeb. Nid oes unrhyw atebion model. Bydd yr wybodaeth a roddwch yn dibynnu ar ddiben eich prosiect. Byddwn hefyd yn gofyn i chi pa dystiolaeth rydych wedi'i ddefnyddio i gyfrifo eich amcangyfrifon.

Efallai bod gennych dystiolaeth wrth law eisoes yn sgil eich ymchwil a'ch ymgynghori eich hun neu o brosiectau blaenorol, neu efallai y bydd modd i chi ddod o hyd iddo mewn:

- ystadegau (o ffynonellau megis y Cyfrifiad neu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol)
- ymchwil a gyflawnwyd gan rywun arall (megis mudiad sector gwirfoddol, awdurdod lleol neu brifysgol).

Bydd maint y dystiolaeth y bydd modd i chi ddod o hyd iddi'n dibynnu ar fath a chwmpas y prosiect, faint rydych yn ei wybod am y bobl a fydd yn elwa ohono a'r amser sydd ar gael i'ch staff neu wirfoddolwyr i ymchwilio iddo. Mae angen i chi fedru dangos bod gennych ymagwedd gytbwys at gyfrifo eich amcangyfrifon, gan gadw hyn i gyd mewn cof.

Mae'n bosib na fydd modd i chi ddod o hyd i ddata diweddar ar gyfer yr ardal lle cynhelir eich prosiect neu y byddwch yn gweld ei fod yn anodd cywain mathau penodol o ddata cydraddoldeb, er enghraifft ar dueddfryd rhywiol a chrefydd neu gred. Yn yr achos hwn bydd angen i chi fabwysiadu ymagwedd synnwyr cyffredin. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu cyflawni eich ymchwil gryo eich hun neu seilio eich amcangyfrifon ar ystadegau o ardal ddaearyddol ehangach.

Enghraifft

Nid oedd prosiect iechyd y galon a oedd yn bwriadu cynnal dosbarthiadau coginio i bawb yn gallu dod o hyd i ddata ar dueddfryd rhywiol y bobl sy'n byw yn eu hardal leol. Yn lle hynny, penderfynwyd defnyddio data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol am bobl sy'n byw yn y DU (y dewch o hyd iddo ar dudalen 14 yr adroddiad a ganlyn).
www.statistics.gov.uk/articles/nojournal/measuring-sexual-identity-report.pdf

Enghraifft

Roedd neuadd pentref sy'n cynnal gweithgareddau addysgol a hamdden yn gwybod bod proffil ethnig yr ardal wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil dyfodiad rhai teuluoedd o Wlad Pwyl.

I gael gwybod pa mor fawr oedd y gymuned newydd hon ac i sicrhau bod gweithgareddau'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau, gofynnodd pwyllgor neuadd y pentref i'r awdurdod lleol p'un a oedd ystadegau ar gael ar gyfer eu pentref. Gan i adran ymchwil yr awdurdod lleol gyflawni ei harchwiliad ei hun yn ddiweddar, fe allai ddarparu gwybodaeth ddiweddar, yn dangos bod 0.5 y cant o'r buddiolwyr yn debygol o fod yn 'Unrhyw gefndir gwyn arall' (roedd hyn yn cynnwys y dyfodiadau diweddar o Wlad Pwyl).

Enghraifft

Cydnabyddodd prosiect sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes ar gyfer pobl hŷn o fewn ardal wledig fawr nad oedd yn gwybod pa gyfran o'i fuddiolwyr a oedd yn debygol o fod yn wryw neu'n fenyw. Ar sail profiad blaenorol roedd yn gwybod bod gan ddefnyddwyr gwryw a benyw ddiddordebau gwahanol fel arfer, ac roedd hynny'n golygu nad oedd yn gwybod sut i ddylunio ei raglen. Aeth gweithiwr y prosiect at adran addysg barhaus i oedolion y brifysgol leol, a oedd yn gallu darparu ystadegau rhyw ar gyfer pobl hŷn o'u cronfa ddata eu hunain (60 y cant benyw a 40 y cant gwryw).

Sut i gywain tystiolaeth drwy gydol eich prosiect

Yn eich ffurflenni Diwedd blwyddyn a Diwedd grant byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganran o bobl sydd wedi elwa o'ch prosiect o dan ein categorïau cydraddoldeb, a darparu tystiolaeth o hyn. Felly bydd rhaid i chi roi dulliau ar waith i gywain y dystiolaeth hon.

Beth i'w ystyried

- ▶ Fe'ch anogir i gywain gwybodaeth am ein holl gategoriâu cydraddoldeb ond cydnabyddwn nad yw hyn bob amser yn bosib neu'n briodol, er enghraifft, petai dod o hyd i'r wybodaeth hon yn atal pobl rhag cymryd rhan yn eich prosiect neu effeithio ar sut y byddant yn elwa ohono. Os credwch mai dyna'r achos o bosib, cysylltwch â'ch Swyddog Grantiau i'w drafod.
- ▶ Pan ydych yn cywain gwybodaeth gydraddoldeb mae'n bwysig dweud wrth bobl bod yr holl gwestiynau'n wirfoddol. Mae rhai categorïau cydraddoldeb yn arbennig o sensitif (er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â thueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir cymunedol) felly fe allech gynnwys opsiwn **'gwell gennyf beidio â dweud'** (er y gall hyn leihau eich cyfradd ymateb).
- ▶ Yn gyffredinol ni ddylech gywain gwybodaeth tueddfryd rhywiol gan bobl o dan 16 oed, er y gall fod yn briodol o bryd i'w gilydd gyda phrosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc 12 oed ac yn hŷn.
- ▶ Mae llawer o brosiectau sydd â buddiolwyr uniongyrchol (y bobl sy'n defnyddio'r prosiect) a buddiolwyr anuniongyrchol (er enghraifft, eu teuluoedd). Dim ond data ar eich buddiolwyr uniongyrchol y mae angen i chi ei gywain, oni bai bod buddiolwyr anuniongyrchol yn bwysig ar gyfer cyflawni canlyniadau eich prosiect.
- ▶ Bydd sut y byddwch yn cywain eich tystiolaeth yn dibynnu ar fath a chwmpas y prosiect, faint rydych yn ei wybod am y bobl a fydd yn elwa ohono a'r amser sydd ar gael i'ch staff neu wirfoddolwyr. Mae angen i chi fedru dangos bod gennych ymagwedd gytbwys, gan gadw hyn i gyd mewn cof.

- ▶ Nid ydym yn disgwyl i chi gywain tystiolaeth gan bawb ond bydd angen i chi feddu ar ddigon o dystiolaeth i ddarparu ffigurau dibynadwy am ledaeniad y bobl sy'n elwa o'ch prosiect.

Cofiwch y gall cywain data cydraddoldeb effeithiol eich helpu i nodi'r rhai sy'n elwa o weithgareddau a gwasanaethau eich prosiect a'r rhai nad ydynt yn elwa. Yna gallwch ddefnyddio'r ddysg hon i wneud newidiadau, er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn cyrraedd pawb a allai elwa ohono.

Enghraifft

Cytunodd y Gronfa Loteri Fawr y byddai'n amhosib i wasanaeth llinell gymorth ddiennw gywain unrhyw wybodaeth gydraddoldeb gan y sawl sy'n ei ffonio ac felly ni fyddai angen iddi gywain yr wybodaeth hon.

Enghraifft

Teimlodd prosiect sy'n rhedeg gwasanaeth cefnogi i bobl ifanc â dementia na fyddai'n briodol cywain gwybodaeth am eu tueddfryd rhywiol gan y byddent yn dibynnu i raddau helaeth ar deulu'r unigolyn i ddarparu'r wybodaeth sensitif iawn yma. Cytunodd y Gronfa Loteri Fawr na fyddai angen i'r prosiect gywain gwybodaeth tueddfryd rhywiol.

Enghraifft

Penderfynodd prosiect sy'n cynnig gweithgareddau seiliedig ar sgiliau i helpu plant i ymdopi â'r straen a geir pan fydd aelod o'r teulu'n camdefnyddio alcohol y byddai'n anfon ffurflen monitro cydraddoldeb drwy'r post at bob cyfranogwr, i gywain data cydraddoldeb. Ceisiodd y prosiect ganiatâd yn gyntaf gan rieni neu warcheidwaid y plant.

Offer cywain tystiolaeth

Ble i ddechrau

Y ffordd orau o ddod o hyd i oedran, rhyw, cefndir ethnig ac yn y blaen, yw gofyn i'r person eu pennu ei hun. Gallwch wneud hyn gan ddefnyddio dulliau cywain data fel mater o drefn, ffurflenni monitro cydraddoldeb ac arolygon defnyddwyr. Gall fod angen i chi ddefnyddio cymysgedd o'r ymagweddau hyn.

Gallwch hefyd ofyn i rywun arall bennu data ar gyfer person os na allant ei wneud eu hunain. Gall hyn fod oherwydd oedran y person neu oherwydd yr ystyrir ei fod yn agored i niwed (er enghraifft o ganlyniad i nam meddyliol).

Os yw unrhyw ddata a gasglwch yn gysylltiedig ag unigolyn (fel y gallai rhywun sy'n edrych ar y data adnabod yr unigolyn), mae'n mynd yn ddata personol. Mae data personol yn destun gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Os byddwch yn cywain data'n ddiennw, nid yw'n ofynnol cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Os byddwch yn cywain unrhyw ddata personol bydd angen i chi esbonio pam rydych yn gofyn amdano, ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio a chyda phwy y caiff ei rannu (mae hwn yn arfer da hyd yn oed os ydych yn cywain data'n ddiennw). Bydd darparu'r esboniad hwn yn blwmp ac yn blaen hefyd yn eich helpu i gynyddu eich cyfradd ymateb.

Mwy am gywain data fel mater o drefn

Mae adolygu'r data rydych eisoes yn ei gywain fel mater o drefn yn lle da i ddechrau gan y gallwch ddefnyddio ffurflenni monitro ac arolygon wedyn i lenwi unrhyw fylchau yn eich tystiolaeth.

Trwy gywain data fel mater o drefn, golygwch wybodaeth rydych yn gofyn amdani gan bobl gan ei bod yn berthnasol i gyflwyno eich prosiect. Fel arfer byddwch yn gofyn am y data hwn pan fydd unigolion yn ymgeisio i gymryd rhan yng ngweithgareddau neu wasanaethau eich prosiect. Er enghraifft, gallai fod angen i chi ofyn am oedran rhywun i benderfynu p'un a yw gweithgaredd yn addas ar eu cyfer.

Un o fanteision defnyddio data a gesglir fel mater o drefn yw eich bod eisoes yn ei wneud, felly nid oes angen i chi sefydlu systemau newydd. Yr anfantais yw na fydd gennych ddata ar gyfer ein holl categorïau cydraddoldeb yn ôl pob tebyg.

Hefyd, oherwydd bod y data'n gysylltiedig ag unigolyn mae'n mynd yn ddata personol ac yn destun gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Felly os nad ydych eisoes yn gwneud hyn, bydd angen i chi roi gwybod i ddefnyddwyr eich bod yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion monitro.



Mwy am ffurflenni monitro cydraddoldeb

Ffurflenni yw'r rhain sydd wedi'u dylunio'n benodol i gywain gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb unigolion. Yn aml byddwch yn gofyn i bobl lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddechrau eich prosiect, er y gellir ei chwblhau hanner ffordd drwodd neu ar y diwedd.

Trwy ddyrannu rhif cyfeirnod unigryw i bob unigolyn (a'i ffurflen monitro cydraddoldeb) gallwch dracio ei berthynas â'ch prosiect (a'ch mudiad) dros amser, heb fod angen cywain eu data cydraddoldeb mwy nag unwaith. Hefyd, gallwch storio'r wybodaeth gydraddoldeb a gasglwch yn fwy cyfrinachol gan gallwch ei chadw ar wahân i unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod unigolion (fel eu henwau). Cofiwch, wrth i ddata gael ei gysylltu â pherson mae'n mynd yn ddata personol ac felly yn destun y Ddeddf Diogelu Data.

Yn ddelfrydol dylid cwblhau ffurflenni monitro'n gyfrinachol. Fodd bynnag mae hyn yn tybio y gall yr unigolyn ddarllen ac ysgrifennu, ac nid yw hyn bob amser yn wir ar gyfer, er enghraifft, pobl ag

anableddau dysgu. Opsiwn arall yw darparu peth cymorth wrth lenwi'r ffurflen, er enghraifft, gan aelod o'ch mudiad. Mae hyn yn arwain at gyfradd ymateb uchel ond ni ddylech gynnwys y cwestiynau mwyaf sensitif, fel y rhai am dueddfryd rhywiol.

Mwy am arolygon defnyddwyr

Gellir addasu arolygon defnyddwyr i gywain gwybodaeth am nodweddion defnyddwyr y prosiect, er enghraifft, drwy gynnwys cyfres o gwestiynau cydraddoldeb mewn arolwg boddhad cwsmeriaid neu ffurflen gwerthuso prosiectau. Mae hyn yn helpu i gwtogi ar faint y gwaith ychwanegol y mae ei angen.

Yn gyffredinol byddwch yn cywain y data yn anhysbys, felly nid yw'n ofynnol cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Y manteision o gywain eich data'n ddienw yw y byddwch, o bosib yn derbyn gwell ymateb i gwestiynau cydraddoldeb mwy sensitif. Fodd bynnag, nid yw'r ymagwedd hon yn rhoi cyfle i chi dracio'r bobl sy'n defnyddio eich prosiect dros amser. Yn lle hynny, mae'n rhoi cipolwg o'r bobl sy'n defnyddio eich prosiect ar un pwynt.



Adolygu eich tystiolaeth

Ar ddiwedd bob blwyddyn byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym am y ganran o bobl sydd wedi elwa mewn gwirionedd o'ch prosiect. Felly bydd angen i chi ddadansoddi'r data cydraddoldeb rydych wedi'i gywain.

Yn gyntaf bydd angen i chi **ystyried ansawdd eich data**.

- ▶ Oes gennych dystiolaeth gan ddigon o bobl i fedru dibynnu arni?
- ▶ Ydy'r ymatebion yn adlewyrchu amrediad llawn y bobl sy'n defnyddio eich prosiect?

Yna bydd angen i chi **gymharu'r data rydych wedi'i gywain gyda'ch amcangyfrifon gwreiddiol** yn eich ffurflen Dechrau eich grant. Os oes gwahaniaethau mawr ar gyfer unrhyw un o'r categorïau cydraddoldeb bydd angen i chi ystyried pam.

- ▶ Gall fod oherwydd gwendidau yn y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i gyfrifo eich amcangyfrifon gwreiddiol neu'r ffordd y gwnaethoch gywain eich tystiolaeth.
- ▶ Neu fe allai fod oherwydd newidiadau ym muddiolwyr eich prosiect neu oherwydd bod angen i chi wneud mwy i hyrwyddo eich prosiect a goresgyn unrhyw rwystrau sy'n annog pobl i beidio â chymryd rhan.

Yn dilyn eich adolygiad gall fod angen i chi gymryd rhai **camau cywiro**, er enghraifft gwneud newidiadau i'r offer a'r technegau rydych yn eu defnyddio i gywain data, neu gymryd camau i gyrraedd ystod ehangach o bobl.

Enghraifft

Defnyddiodd prosiect ieuentid sy'n gweithredu mewn un o faestrefi Manceinion ddata o Gyfrifiad 2001 wrth amcangyfrif canran y bobl a fyddai'n elwa o'r prosiect fesul crefydd a chred. Dangosodd y data o 2001 y gallai 8 y cant o'i fuddiolwyr fod yn Iddewon.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf roedd y prosiect wedi llwyddo i gywain data cydraddoldeb gan 70 y cant o'i ddefnyddwyr, a theimlwyd bod hyn yn gyflawniad da. Ar ôl adolygu'r data, nododd y prosiect mai dim ond 1 y cant o fuddiolwyr y prosiect oedd yn Iddewon, er gwaethaf eu hymdrechion gorau i hyrwyddo'r prosiect ieuentid drwy'r Synagog leol.

Teimlodd y prosiect y cafwyd gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r lefelau gwirioneddol oherwydd bod y ffynhonnell ddata yr oeddent wedi'i defnyddio mor hen. Roeddent yn gwybod bod llawer o'r teuluoedd Iddewig iau wedi symud i gymdogaethau gwahanol yn ystod blynyddoedd diweddar. Cytunodd y Gronfa Loteri Fawr i adolygu amcangyfrif y prosiect o lefelau buddiolwyr fesul crefydd a chred.

Enghraifft

Defnyddiodd gwasanaeth llyfrgell deithiol mewn ardal wledig archwiliad cymunedol diweddar yr awdurdod lleol i gyfrifo canran y bobl a fyddai'n elwa o'u prosiect o dan bob un o'r categorïau cydraddoldeb.

Blwyddyn wedyn, ar ôl cywain data cydraddoldeb drwy arolwg boddhad cwsmeriaid unigol, sylwyd bod yna gwahaniaethau mawr rhwng eu hamcangyfrifon gwreiddiol a lefelau buddiolwyr gwirioneddol ar draws llawer o'r categorïau cydraddoldeb. Wrth fyfyrho arno, sylweddolodd y prosiect ei fod wedi llwyddo i gywain data cydraddoldeb gan 150 o ddefnyddwyr prosiect yn unig, er gwaetha'r ffaith bod dros 1,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer eu gwasanaeth. Roedd hyn yn golygu nad oedd maint y data'n ddigon mawr ac nad oedd yn cynnwys ystod eang o ddefnyddwyr. Er mwyn annog cyfradd ymateb uwch yn y dyfodol, sylweddolodd y gwasanaeth llyfrgell fod angen iddo gynnal ei arolwg dros gyfnod amser hwy ac esbonio yn y rhaglith pam yr oedd yn cywain y data hwn a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio.

Enghraifft

Defnyddiodd gardd gymunedol gymysgedd o'i hymchwil ei hun a data diweddar o wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i amcangyfrif pwy fyddai'n elwa o'u prosiect (o dan bob un o'r categorïau cydraddoldeb). Gofynnwyd i fuddiolwyr y prosiect lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb ddienw wrth gofrestru, a llwyddwyd i gywain data a oedd yn rhesymol gyflawn gan 80 y cant o'r defnyddwyr.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf cymharodd y prosiect ei amcangyfrifon â'r wybodaeth gydraddoldeb yr oedd wedi'i chywain. Gan wybod yr oedd cymuned Foslemaidd sylweddol yn yr ardal leol, roedd y prosiect wedi'i synnu i weld mai dim ond canran fach o fuddiolwyr oedd wedi disgrifio eu hunain fel Moslemaidd.

Siaradodd arweinydd y prosiect ag un o'r aelodau Moslemaidd, gan ddarganfod bod rhedeg y prosiect ar ddydd Mawrth a dydd Gwener (y diwrnod sanctaidd Moslemaidd) yn rhwystr i gymryd rhan. Felly, penderfynodd yr ardd gymunedol newid ei diwrnodau i fod yn fwy cynhwysol.

“Yn dilyn eich adolygiad gall fod angen i chi gymryd rhai camau cywiro”

Ar ddiwedd bob blwyddyn byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym beth y gwnaethoch i sicrhau bod pawb a allai elwa o'ch portffolio'n gwybod amdano ac yn medru ei ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa mor effeithiol yr oeddech yn eich tyb chi o ran cyrraedd pawb a allai elwa o'ch prosiect.

Wrth gynllunio eich prosiect byddwch wedi ystyried pwy allai elwa ohono, er y maent yn llai tebygol o'i ddefnyddio neu gymryd rhan. Ac ar sail cywain data cydraddoldeb bydd modd i chi ddweud p'un a oeddech wedi llwyddo i gyrraedd y bobl hyn. Os bydd eich canlyniadau'n dangos nad oeddech mor effeithiol ag y gallech fod, bydd angen i chi gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Dyma'r awgrymiadau rydym yn eu hawgrymu.

Dysgu mwy amdanynt

Mae'n syniad da cael gwybod mwy am y grwpiau o bobl nad ydynt yn elwa o'ch prosiect, megis ble maen nhw'n cwrdd, beth sy'n gyffredin rhyngddynt, sut i gysylltu â nhw, pwy arall sy'n gweithio gyda nhw a beth sy'n eu hatal rhag cymryd rhan ar hyn o bryd.

Efallai y byddwch yn penderfynu cynnal cyfweiliadau, grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgynghori gyda'r grwpiau eu hunain, gan fod y rhain yn ffyrdd defnyddiol o ymchwilio i anghenion pobl a'u profiadau o ddefnyddio gweithgaredd neu wasanaeth. Neu gallwch ofyn am gymorth gan y rhai sydd eisoes â pherthynas well gyda'r grŵp yr hoffech ei gyrraedd, megis arweinwyr cymunedol lleol.

Gall fod fforymau, grwpiau cymunedol a busnesau lleol y gallwch gysylltu â nhw. Mae llawer o awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol yn cadw gwybodaeth am grwpiau lleol. Neu gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth drwy gyfeirio at strategaethau lleol, papurau newydd ac ymweld â'r llyfrgell leol a chodi taflenni.

Trwy ddysgu mwy am y grwpiau o bobl nad ydynt yn elwa o'ch prosiect, y gallent fod yn cymryd rhan, bydd gennych syniad gwell o sut i hyrwyddo eich prosiect iddynt a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Y rhwystrau mwyaf cyffredin rydym wedi'u gweld yw nad yw pobl yn gwybod bod y prosiect yn bodoli, neu maent yn teimlo bod yna rhwystrau difrifol i gymryd rhan, neu maent wedi cael profiadau gwael yn y gorffennol.

Enghraifft

Wedi darganfod nad oedd eu prosiect yn denu unrhyw aelodau o'r gymuned Sikhaidd leol, penderfynodd cadeirydd y clwb ieuencid lleol ymweld â'r ysgol leol i geisio creu cysylltiadau drwy'r cyfrwng hwnnw.

Yn sgil y cyswllt cychwynnol hwn, cynigiodd rhiant o'r gymuned Sikhaidd yn y gymdeithas rhieni ac athrawon ymweld â'r clwb ieuencid i drafod ffyrdd o wneud ei leoliad a'i weithgareddau'n fwy deniadol i aelodau o'i gymuned. Dysgodd y prosiect y byddai llawer o rieni sy'n Sikhiaid yn fodlon i'w plant ddod i weithgareddau rhyw cymysg y clwb ieuencid cyhyd â bod ganddynt arweinyddiaeth briodol. Felly, penderfynwyd ceisio denu oedolion o'r gymuned Sikhaidd i ymuno fel cynorthwyr.

Beth os nad ydynt yn gwybod bod y prosiect yn bodoli?

I oresgyn y rhwystr hwn bydd angen i chi ystyried sut y gallai'r bobl rydych eisiau eu cyrraedd gael gwybod am eich prosiect, er enghraifft, pa bapurau newydd ydyn nhw'n darllen, pa orsafoedd radio ydyn nhw'n gwrando arnynt, a ble maent yn mynd i gwrdd, siopa, gweddio neu ddefnyddio gwasanaethau?

Gall fod angen i chi ystyried amrywiaeth o ffyrdd o hyrwyddo eich prosiect, megis y wasg, cylchlythyron, cyfarfodydd personol, radio cymunedol, y we, negeseuon testun, neu ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth.

Dylech ystyried fformat unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a ddefnyddiwch hefyd. Defnyddiwch iaith glir heb jargon a gofawch ei bod yn hawdd ei deall. Weithiau mae lluniau a symbolau'n ddefnyddiol i bobl ag anableddau dysgu hefyd. Yn aml nid yw cyfieithu eich holl ddeunyddiau i bob iaith yn gost-effeithiol nac yn ddefnyddiol, ond gallai fod angen i chi ystyried pethau ychwanegol y gallwch eu gwneud i gyrraedd pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Enghraifft

Sefydlwyd prosiect lles i ddarparu therapïau amgen a dosbarthiadau megis myfyrio a t'ai chi ar gyfer pobl sy'n ymdopi gyda straen. Hanner ffordd drwy'r prosiect sylweddolodd y grŵp nad oeddent yn cyrraedd llawer o ofalwyr, er iddynt wybod bod straen yn broblem allweddol ar eu cyfer.

Trwy drafodaethau gyda'u hymddiriedolaeth iechyd leol, sylweddolodd y prosiect mai'r ffordd fwyaf effeithiol o hysbysebu eu prosiect oedd trwy'r gweithwyr proffesiynol a ddaeth i gyswllt â gofalwyr yn eu cartrefi eu hunain yn rheolaidd. Felly cynhaliwyd cyfres o sesiynau briffio gyda'r asiantaethau perthnasol i helpu cynyddu ymwybyddiaeth o'u prosiect ymysg gofalwyr.

Enghraifft

Roedd prosiect a sefydlwyd i ddarparu cwnsela ar gyfer ymfudwyr diweddar sy'n byw yn Llundain yn ystyried sut i hysbysebu argaeledd ei wasanaethau. Roedd y prosiect eisiau cyrraedd aelodau'r gymuned Somaliidd, ac i ddechrau roedd yn bwriadu datblygu rhai taflenni hyrwyddo (wedi'u cyfieithu i Somali) a fyddai'n cael eu dosbarthu o gwmpas meddygfeydd.

Yn dilyn cyngor gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, sylweddolodd y prosiect na fyddai'r ymagwedd hon yn effeithiol oherwydd lefelau llythrennedd isel ymysg sawl aelod o'r gymuned. Yn lle hynny gweithiodd y prosiect gyda'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r coleg lleol i gynhyrchu fideo byr yn Somali, i'w ddangos ar sgriniau gwybodaeth mewn ystafelloedd aros meddygfeydd. Penderfynodd y prosiect hefyd i fonitro effeithiolrwydd y fideo drwy ofyn i ddefnyddwyr sut y daethant i wybod am y gwasanaeth cwnsela.

Beth os ydynt yn tybio bod yna rhwystrau difrifol i gymryd rhan?

Dyma rai pethau y gallwch eu hystyried i oresgyn y rhwystr hwn.

- ▶ Ydy eich lleoliad yn ymyl cludiant cyhoeddus, mewn ardal sydd wedi'i goleuo'n dda, ac yn lle y mae eich grwpiau targed yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel ynddo?
- ▶ All pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gadeiriau gwthio neu'r rhai sy'n profi anhawster gyda grisiau neu drysau trwm ddefnyddio eich lleoliad?
- ▶ All eich grwpiau targed fforddio defnyddio eich gwasanaethau?
- ▶ Oes gan eich grwpiau targed anghenion cyfathrebu penodol megis iaith gymunedol, arwyddwr neu ddolen glyw?
- ▶ Oes angen i chi gynllunio eich gwasanaethau o gwmpas gwyliau ysgol, gwyliau crefyddol neu gynnig rhai gweithgareddau y tu allan i oriau swyddfa?
- ▶ Oes angen cefnogaeth ar bobl gyda chyfrifoldebau gofalu, ar gyfer plant neu aelodau teulu anabl?
- ▶ Oes angen i chi ystyried anghenion deietegol oherwydd rhesymau crefyddol, diwylliannol neu iechyd neu oherwydd bod pobl yn llysieuwyr?
- ▶ Os daeth pobl o'ch grŵp targed i'ch adeilad neu i'ch digwyddiadau, a fyddai groeso iddynt ac a fyddent yn teimlo'n gyfforddus?
- ▶ Oes angen i chi ddod o hyd i ffyrdd o roi mwy o gyfle i'ch grwpiau targed leisio eu barn ynglŷn â rhediad eich mudiad?

Enghraifft

Roedd cylch chwarae cyn-ysgol yn awyddus i sicrhau ei fod yn denu ac yn darparu ar gyfer plant ag anableddau. Hefyd roedd eisiau darparu cyfleoedd chwarae a anogodd yr holl blant i gymysgu'n dda.

Trwy drafodaethau gyda mudiad anableddau lleol a rhieni plant anabl, roedd yn gallu datblygu rhaglen weithgareddau a ddarparodd ar gyfer plant anabl ac abl eu cyrff.

Ystyriodd y rhaglen hoff bethau a chas bethau pob plentyn ynghyd â'u hanghenion cefnogi penodol. Un o bwyntiau dysgu allweddol y grŵp oedd bod angen iddo fabwysiadu ymagwedd lai strwythuredig a meddu ar ddigon o staff, llawer o weithgareddau bach a chyfarpar chwarae eisoes wedi'i sefydlu ynghyd â hyblygrwydd o fewn yr hyn y maen ei wneud.

Beth os ydynt wedi cael profiadau gwael yn y gorffennol?

Mewn rhai achosion, nid yw grwpiau'n cymryd rhan gan iddynt gael profiad gwael gyda 'biwrocratiaeth' a themlo nad ydynt wedi derbyn digon o gefnogaeth. Yna gall fod ganddynt ddiffyg hyder yn eich mudiad a'ch prosiect.

Felly bydd angen i chi ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu eu hymddiriedaeth. Mae'n bosib y bydd modd i chi wneud hyn drwy drafod eu safbwyntiau a'u profiadau blaenorol, a chytuno ar yr hyn a wnewch yn wahanol er mwyn rhoi croeso iddynt.

Bydd angen i chi eu trin gyda pharch a chreu perthynas gadarnhaol gyda nhw dros amser. Mae hefyd yn syniad da eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio a gwerthuso eich prosiect, fel y gallwch gael gwybod pa mor effeithiol oedd y camau a gymerwyd.

Enghraifft

Roedd prosiect cyngor ariannol am greu cysylltiadau ag aelodau ei gymuned Deithio leol. Teimlodd y gallai gynnig gwasanaeth defnyddiol ond roedd wedi'i chael hi'n anodd creu cysylltiadau ystyrlon yn y gorffennol.

Penderfynodd y gweithiwr cyngori siarad ag elusen leol yr oedd eisoes wedi creu cysylltiadau agos gyda'r Teithwyr. Esboniodd yr elusen fod y gymuned yn ddrwgdybus o bobl o'r tu allan, a chytunodd i weithredu fel cyfryngwr.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn amyneddgar, mabwysiadu ymagwedd agored a gweithredol at wrando, a chynnig ymagwedd gwasanaeth hyblyg.

Ble i gael mwy o wybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn crynhoi'r wybodaeth fanwl a ddarperir ar ein gwefan yn Canllaw Gwybodaeth Gydraddoldeb i ddeiliaid grantiau.

Gweler:

www.cronfaloterifawr.org.uk/index/grant-uk.htm

Mae'r adnodd ar-lein hwn hefyd yn cynnwys:

- ▶ Rhai ffynonellau tystiolaeth defnyddiol y gallent fod o fudd i chi wrth amcangyfrif pwy fydd yn elwa o'ch prosiect.
- ▶ Set o gwestiynau enghreifftiol ar gyfer cywain data cydraddoldeb y gallwch eu defnyddio yn eich ffurflenni neu arolygon.
- ▶ Dolenni i ffynonellau cymorth pellach a all eich helpu wrth gywain tystiolaeth a chyrraedd pawb yn ogystal â manylion mudiadau defnyddiol
- ▶ Gwybodaeth am ein categorïau cydraddoldeb, gan gynnwys esboniad o'u hystyr.
- ▶ Arweiniad ar reoli eich data mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data.

Sut i gysylltu â ni

Mae eich llythyr cynnig grant yn cynnwys enw a manylion cyswllt y Swyddog Grantiau a fydd yn rheoli eich grant. Cysylltwch â nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r canllaw hwn.

E-bost yw'r ffordd orau o gysylltu â nhw, felly defnyddiwch hyn os gallwch. Os nad oes gennych e-bost neu os byddai'n well gennych beidio â'i ddefnyddio, defnyddiwch y post yn lle. Os oes gennych unrhyw anghenion cyfathrebu penodol nad ydych eisoes wedi'n hysbysu amdanynt, rhwch wybod i ni a byddwn yn gwneud ein gorau glas i helpu.



